Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol
# Ceunant Llennyrch
National Nature Reserve

Rhan o **Goedydd Derw Meirionnydd**
Part of **Meirionnydd Oakwoods**

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Llennyrch

Rydych ar drothwy un o 'goedwigoedd glaw' Cymru!

**A wyddech chi fod y coed derw yma yn nheyrnas hynafol Meirionnydd yng ngogledd-orllewin Cymru mor bwysig â rhai coedwigoedd glaw trofannol, a'r un mor fregus hefyd?**

Maent yn gartref i rai o'r enghreifftiau gorau o Goetir Derw Iwerydd yn Ewrop. Mae'r cynefin unigryw hwn yn gyforiog o fywyd gwyllt ac yn werthfawr iawn i'r bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan gynnig harddwch dihafal i ymlacio ynddo.

### Mwsogl sy'n rhyngwladol bwysig?

Dim ond mewn ardaloedd llaith y bydd llawer o'r mwsoglau, llysiau'r afu a'r cennau sy'n addurno'r creigiau a boncyffion y coed derw yma yn goroesi – a rhai ohonynt mor brin nes eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol! Oherwydd y glawiad uchel a'r ewyn dŵr o'r nentydd serth, mae'r aer yn cadw'n llaith o dan gysgod y coed – gan greu coedwigoedd glaw 'tymherus' sy'n fyd-eang brin.

Gwarchodir chwech o Goedydd Derw mawr ym Meirionnydd fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol – a phedair ohonynt yn hawdd ymweld â hwy. Dyma un ohonynt – olion coedwig helaeth a ymestynnai ar un adeg i lawr ochr orllewinol Prydain ac Iwerddon.

## Welcome to Ceunant Llennyrch National Nature Reserve

You are about to enter one of Wales's 'rainforests'

**Did you know that the oakwoods here in the ancient kingdom of Meirionnydd in north west Wales are as globally important, and as vulnerable as, some tropical rainforests?**

They are home to some of the best examples of Atlantic Oak Woodland in Europe. This unique habitat is rich in wildlife and highly valued by local people and visitors alike as a place of unrivalled beauty to relax in.

### Internationally important moss?

Many of the mosses, liverworts and lichens which adorn the oak tree trunks and rocks here survive only in humid areas – some are so rare that they are of international importance! The high rainfall and spray from the steep streams means the air remains humid under the shade of the trees – creating globally rare 'temperate' rainforests.

Six large Meirionnydd Oakwoods are protected as National Nature Reserves – with four that are easy to visit. This is one of them – a remnant of a vast Atlantic 'wildwood' that once extended down the western side of Britain and Ireland.

## Lleoliadau Coedydd Derw Meirionnydd | Meirionnydd Oakwoods Locations




## Ceunant Llennyrch – ceunant ysblennydd gyda phlanhigion sy'n hoffi lleithder.

Mae Ceunant Llennyrch yn geunant dwfn a choediog. Rhwng ei furiau uchel, mae Afon Prysor yn rhaeadru i lawr y dirwedd serth tuag at ddyffryn Dwyryd. Mae'r creigiau yn wythdeg troedfedd o uchder mewn mannau a dim ond trideg troedfedd rhyngddynt. Ni all geiriau wneud cyfiawnder â'r dirwedd hon: mae'n rhaid i chi sefyll yma, ger un o'r ffrydiau byrlymus, neu ger un o'r rhaeadrau rhyfeddol, yn enwedig Rhaeadr Ddu i deimlo egni gwyllt y lle arbennig hwn. Mae'n un o'n mannau gwyllt olaf.

### Gwlybaniaeth

Mae hinsawdd fwyn ond gwlyb, gyda glawiad drwy'r flwyddyn, dŵr yn tasgu o'r rhaeadrau a chanopi trwchus gyda choed deri niferus yn arwain at leithder o fewn y ceunant ac o'i amgylch, a hynny'n creu amodau gwych i blanhigion sy'n hoffi lleithder.

### Beth i edrych amdano

**Myrdd mwsoglau**

Mae planhigion yn ffynnu yn yr amgylchedd llaith hwn. Wyddoch chi fod 230 o rywogaethau o fwsoglau a llysiau'r afu yng Ngheunant Llennyrch, a bod nifer ohonynt yn anghyffredin neu'n brin?

Chwiliwch am y mwsogl pluog ymledol, y mwsogl gwddf-alarch llyfn a'r mwsogl clustog, gyda'i glustogau eliffantaidd ar ymyl creigiau a chlogfeini. Nid oes raid i chi wybod yr enwau, ond mwynhau edrych ar y mwsoglau o bob siâp ar lawr y coetir, y creigiau, y clogfeini a'r boncyffion.

**Cennau campus**

Yn ddiweddar, mae'r warchodfa hon gyda'i haer pur, wedi dod i'r amlwg fel un o'r safleoedd coetir gorau ar gyfer cennau yng Nghymru. Mae yma bron i 250 o rywogaethau, gan gynnwys nifer o rywogaethau cenedlaethol prin, a gellir cymharu'r safle gyda dyfnentydd gorllewin yr Alban – sy'n enwog yn fyd-eang am eu cymunedau o gennau.

**Triawd y goedwig**

Mae'r coetir yn gartref i lawer o adar hefyd. Yn yr haf, mae'r tingoch, telor y coed a'r gwybedog brith yn ymwelwyr cyson – sef y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r 'coetiroedd derw uwchdirol'.

## Ceunant Llennyrch – a spectacular gorge with damp-loving plants.

Ceunant Llennyrch (say 'kay-nant' – means gorge) is a spectacular deep, wooded gorge.

Between its high walls, the Afon Prysor cascades and tumbles steeply down towards the Dwyryd valley. At some points, the cliffs are eighty feet high and only thirty feet apart. But words cannot do justice to this landscape: you need to stand here, by one of the white water cascades, or near one of the many spectacular waterfalls, particularly the Rhaeadr Ddu (black waterfall) to feel the raw, untamed energy of the place. It is one of our last true wildernesses.

### Wet, wet, wet

A mild but wet climate, with rainfall throughout the year, constant spray from the many waterfalls and a dense canopy dominated by oak ensure high humidity within and around the gorge creating a bonanza for damp-loving plants.

### What to look out for

**Magical for mosses and liverworts**

Plants thrive in this humid environment. Did you know that there are 230 species of mosses and liverworts at Ceunant Llennyrch, many of them uncommon or rare?


Look out for the graphically named prostrate feather moss, the silky swan-neck moss and the aptly named cushion moss, with its elephantine cushions on the edge of crags and boulders. Knowing the names isn't essential, just look at the variety of shapes of mosses on the woodland floor, the crags and boulders and the tree trunks.

**Loaded with lichens**

The Reserve, with its pure air, has emerged recently as one of the richest woodland lichen sites in Wales. With almost 250 species, including many nationally rare species, it is comparable with the ravines of western Scotland - internationally famous for their lichen communities.


**Upland Oakwood Bird Trio**

The woodland sustains a healthy bird population, too. Notable summer visitors include redstart, wood warbler and pied flycatcher – the typical 'upland oakwood' species.



cen llysiau'r ysgyfaint
lungwort lichen


Rhedynach Wilson, llysiau'r afu a mwsoglau
Wilson's filmy fern, liverworts and mosses




### Llwybr Rhaeadr Ddu
### Rhaeadr Ddu Waterfall Walk

Anodd | Strenuous
Pellter | Distance: 1¼m | 2km
Amser | Time: 1 awr | hour

**UCHAFBWYNTIAU:**

- Teimlo'r dŵr yn tasgu o'r Rhaeadr Ddu
- Rhyfeddu at y ceunant
- Cyfle i fwynhau atmosffer 'coedwig law' y coetir derw hynafol hwn
- Cyfle i chwilio am gennau amrywiol o ran siâp a lliw ar y coed
- Cyfle i gyffwrdd rhai o'r mwsoglau a theimlo'r lleithder
- Gweld tingochiaid, gwybedogion brith a theloriaid y coed ar ddechrau'r haf a gwrando ar eu cân
- Canfod ffyngau yn yr hydref/diwedd yr haf.

**HIGHLIGHTS:**

- Feel the spray from the Rhaeadr Ddu waterfall
- Marvel at the deep ravine
- Take in this ancient oak woodland 'rainforest's' atmosphere
- Look out for the many shapes and colours of lichens on trees
- Gently press cushion moss and feel its dampness
- Spot and listen to redstarts, pied-flycatchers and wood warblers in early summer
- Find fungi in autumn/late summer.

### ER EICH DIOGELWCH:

- **Ceir daear anwastad dan draed, gyda brigiadau caregog, creigiau a chlogwyni**, yn aml wedi'u gorchuddio â llystyfiant uchel – gwisgwch esgidiau cadarn a **chadwch at y llwybrau**.
- **Mae llwybr serth gyda grisiau ac wyneb anwastad** i lawr i Rhaeadr Ddu ac i fyny oddi yno.
- Mae'r afon yn gallu dod yn **ffrydlif tymhestlog** mewn dim amser yn ystod tywydd gwlyb - **mae perygl o gael eich cario ymaith** – cadwch draw.
- **Nid oes signal i ffonau symudol** yn y ceunant.
- Mae **wynebau'r creigiau** o fewn y ceunant yn hynod o **lithrig pan fo'n wlyb**.

Dilynwch y **Côd Cefn Gwlad**: Parchwch, Diogelwch a Mwynhewch gefn gwlad.

Gobeithio y mwynhewch eich ymweliad.

### FOR YOUR SAFETY:

- **Rugged terrain** with **rocky outcrops, cliffs and crags**, often concealed by long vegetation - wear footwear with a good grip, **keep to paths**.
- **Steep path with uneven steps and surface** down to and up from the Rhaeadr Ddu waterfall.
- The river can rapidly become a **raging torrent** in wet weather – **danger of being swept away** - keep away.
- **No mobile phone reception** in the gorge.
- **Rock surfaces** within the gorge are extremely **slippery when wet**.

Follow the **Countryside Code**: Respect, Protect and Enjoy the countryside.

We hope you enjoy your visit.


© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Mawrth 2017
© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – March 2017

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100019741
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100019741



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000


Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

parcio / parking
ffin y GNG / NNR boundary
llwybr cyhoeddus / public footpath
Cylchdaith Maentwrog / Maentwrog Circular Walk

Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government